

Gwasanaethau Radioleg: Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2761A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol amrywiaeth eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith drwy ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân ac mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn ei rinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay

Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'r ffordd y mae'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau radioleg drwy reoli'r gwasanaeth yn gadarn. Gwnaed cynnydd da i fynd i'r afael â'n hargymhellion yn 2017, ond mae angen gwneud rhagor o waith. Gallai galw cronedig o'r pandemig effeithio ar amseroedd aros am sganiau ac adrodd ar sganiau.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Ein canfyddiadau 5

Argymhellion 7

Atodiadau

Atodiad 1 – Cynnydd i ymdrin â'n hargymhellion yn 2017 8

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Darganfu ein hadroddiad ar wasanaethau radioleg yn 2017 er bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda yn weithredol, fod y Bwrdd lechyd yn wynebu risgiau o ran darparu gwasanaethau presennol a rhai'r dyfodol. Roedd y risgiau hyn yn cynnwys adrodd am ôl-groniadau, galw cynyddol am wasanaethau, pwysau staffio ac offer sy'n heneiddio. Gwnaethom hefyd weld bod diffyg cynllunio strategol a chynllunio busnes.
- 2 Yn 2018, amlygodd adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar Wasanaethau Radioleg yng Nghymru nifer o faterion sy'n bygwth cynaliadwyedd gwasanaethau radioleg ledled Cymru hefyd. Roedd y materion hyn yn cynnwys heriau staffio; offer sy'n heneiddio ac wedi'u tanddefnyddio; gwendidau mewn systemau TG; aros yn hir am ganlyniadau arholiadau; a chyfleoedd i wella craffu a chynllunio strategol.
- 3 Mae'r ddau adroddiad yn nodi argymhellion neu gamau y dylai'r Bwrdd lechyd ymdrin â nhw i wella cynllunio'r gweithlu, rhaglenni offer newydd, modelu galw, cynyddu capasiti, gwybodaeth am berfformiad a threfniadau monitro. Nododd adroddiad cenedlaethol 2018 heriau ychwanegol hefyd a oedd yn gofyn am ddull gweithredu cydgysylltiedig gan GIG Cymru.
- 4 Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Datganiad o Fwriad Delweddu, yn nodi ymrwymiad i fabwysiadu dull strategol cydgysylltiedig newydd o ddatblygu gwasanaethau delweddu effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel. Sefydlwyd Bwrdd Strategaeth y Rhaglen Delweddu Genedlaethol (NIPSB) yn 2019 i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r Datganiad o Fwriad Delweddu a hyrwyddo arloesedd a ffyrdd newydd o weithio mewn gwasanaethau delweddu yng Nghymru. Mae'r NIPSB wedi bod yn gwneud gwaith i asesu'r cynnydd sydd wedi'i wneud gan GIG Cymru.
- 5 Ers i ni gyhoeddi ein hadroddiadau lleol a chenedlaethol ar wasanaethau radioleg, mae pandemig COVID-19 wedi newid y sefyllfa y mae'r Bwrdd lechyd yn gweithredu ynddi, gan achosi heriau a chyfleoedd newydd i ddarparu gwasanaethau. Yn ogystal, ym mis Medi 2020 lansiodd Canolfan Trawma Fawr De Cymru, sydd wedi'i lleoli yn Ysbyty Athrofaol Cymru (UHW), a disgwylir y bydd hyn yn cynyddu'r galw am ddelweddu, yn enwedig delweddu heb ei gynllunio.
- 6 Gwnaethom gynnal asesiad lefel uchel o'r cynnydd a wnaeth y Bwrdd lechyd i ymdrin â'n hargymhellion. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, gwnaethom:
 - ofyn i'r Bwrdd lechyd gwblhau hunanasesiad o gynnydd;
 - adolygu tystiolaeth ddogfennol i ategu'r hunanasesiad, yn ogystal â phapurau bwrdd a phwyllgorau; a
 - chyfweld â nifer o swyddogion i drafod cynnydd, materion presennol, a heriau yn y dyfodol.

- 7 Mae crynodeb o'n canfyddiadau wedi'i nodi yn yr adran ganlynol ac mae gwybodaeth fanylach yn **Atodiad 1**.

Ein canfyddiadau

- 8 Ein casgliad cyffredinol yw bod y Bwrdd lechyd **wedi gwella'r ffordd y mae'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau radioleg drwy reoli'r gwasanaeth yn gadarn. Gwnaed cynnydd da i fynd i'r afael â'n hargymhellion yn 2017, ond mae angen gwneud rhagor o waith. Gallai galw cronedig o'r pandemig effeithio ar amseroedd aros am sganiau ac adrodd ar sganiau.**
- 9 I grynhoi, nodir statws y cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion blaenorol yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: statws argymhellion 2017

Cyfanswm yr argymhellion	Wedi'u gweithredu	Gweithredu'n parhau	Dim camau	Wedi'u disodli
8	3	4	1	0

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 10 Gwnaethom weld bod y Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd da i ymdrin â'n hargymhellion, ond mae rhagor o waith i'w wneud i ymdrin yn llawn â'n hargymhellion:
- mae gan y gwasanaeth ddealltwriaeth dda o'r pwysau y mae'n eu hwynebu o ddydd i ddydd ac mae ganddo brosesau ar waith i ymdrin ag adrodd ar ôl-groniadau wrth iddynt godi.
 - nid yw'r gwasanaeth yn gwneud defnydd da o radiograffwyr sy'n adrodd i gynyddu capasiti adrodd. Ar hyn o bryd, mae nifer yr adroddiadau y mae angen eu trefnu drwy gontract allanol yn gymharol fach.
 - bydd angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau ei fod yn cynnal y perfformiad diweddar o ran sganiau tomograffeg cyfrifiadurol ac yn gwella sganiau delweddu cyseiniant magnetig.
 - mae gan y gwasanaeth gyfarpar MRI newydd a ddylai arwain at welliannau ym mhrofiad y claf a cholli llai o amser oherwydd bod offer yn methu.
 - mae cyfraddau arfarnu radioleg yn parhau i fod yn is na'r lefel darged o 85% o aelodau staff yn cyflawni arfarniad blynyddol. Mae tipyn o amrywiaeth rhwng grwpiau staff, ond mae'r gwasanaeth wedi cymryd camau i ymdrin â'r materion sylfaenol yn y meysydd sy'n perfformio gwaethaf.
 - mae cyfraddau hyfforddi gorfodol wedi gwella, ac mae perfformiad tua'r lefel darged o 85%, er bod y pandemig wedi cael effaith negyddol yn ystod y misoedd diwethaf.

- mae'r gyfarwyddiaeth radioleg wedi gwella trefniadau cynllunio'r gweithlu. Mae recriwtio mewn rhai ardaloedd yn parhau i fod yn anodd, ond mae'r Bwrdd lechyd yn llwyddo i recriwtio graddedigion radiograffeg newydd. Fodd bynnag, gall gorgynrychioli un ddemograffeg yn y gweithlu achosi problemau yn y dyfodol.
- mae gan y gyfarwyddiaeth radioleg berthynas dda ac mae'n cyfathrebu'n rheolaidd â chyfarwyddiaethau eraill i lywio'r galw a'r capasiti, ac i sicrhau bod atgyfeiriadau cleifion ar gyfer delweddu diagnostig yn cael eu blaenoriaethu'n briodol. Mae camau'n cael eu cymryd i gyflwyno system e-gyfeirio.
- mae'r Bwrdd lechyd wedi cyflwyno fframwaith newydd i flaenoriaethu'r offer y mae angen rhai newydd yn eu lle.
- mae trefniadau priodol i sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro'n weithredol, ac mae mwy o fesurau perfformiad yn cael eu hadrodd yn y gyfarwyddiaeth. Mae echdynnu gwybodaeth reoli yn parhau i gymryd amser, er bod y Bwrdd lechyd yn chwilio am ddatrysiad i wella hyn
- nid yw cynlluniau gweithredol radioleg yn nodi camau gweithredu penodol, mesuradwy ac amserol ar gyfer cyflawni, ac felly mae'n anodd asesu cynnydd o ran cyflawni'r cynllun.

11 Wrth gynnal yr asesiad hwn o'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, gwnaethom nodi un risg newydd o ran gwasanaethau radioleg sydd wedi'i nodi yn **Arddangosyn 2**. Bydd angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau ei fod yn parhau i oruchwyllo'r risg hon.

Arddangosyn 2: risg newydd wedi'i nodi yn ystod ein gwaith

Risg newydd	
Maes	Disgrifiad
Galw cynyddol oherwydd y galw cronedig yn sgil COVID-19	Mae lefel anhysbys o alw 'cronedig' o ganlyniad i ohirio triniaeth cleifion neu wrth iddynt beidio ag ymweld â'u meddyg teulu yn ystod y pandemig. Gallai'r galw hwn effeithio'n sylweddol ar allu'r gwasanaeth radioleg i ymateb i atgyfeiriadau ac adrodd ar ddelweddau mewn modd amserol, gan arwain at amseroedd aros hirach ar gyfer sganiau ac adrodd ar sganiau.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Argymhellion

- 12 Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd lechyd barhau i wneud cynnydd o ran ymdrin â'n hargymhelliad blaenorol nad yw wedi'i weithredu'n llawn eto. Mae hyn wedi'i nodi yn **Arddangosyn 3**.

Arddangosyn 3: argymhellion blaenorol heb eu gweithredu'n llawn eto

Argymhelliad 2017 heb ei weithredu'n llawn eto

- A2 Yn ystod y flwyddyn nesaf, cynyddu cyfraddau arfarnu staff anghlinigol radioleg i o leiaf lefel yr holl staff radioleg eraill.

Atodiad 1

Cynnydd wrth ymdrin â'n hargymhellion yn 2017

Arddangosyn 4: asesu cynnydd

Argymhellion y mae angen ymdrin â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
<p>A1 Datblygu cynllun gweithredu sy'n nodi sut y caiff trefniadau adrodd ar ôl-groniadau eu rheoli'n gynaliadwy, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none">a. gwneud defnydd tymor byr o gontractau allanol, wrth i gynlluniau'r gweithlu a hyfforddiant gael eu datblygu;b. sicrhau bod radiograffwyr sydd eisoes wedi'u hyfforddi i adrodd yn cael eu defnyddio'n llawn: a	Oren	<p>Amlygodd ein hadroddiad yn 2017 fod y Bwrdd lechyd yn aml yn methu â chyrraedd ei darged o adrodd ar ddelweddau o fewn deng niwrnod ledled pob dull.</p> <p>Ers hynny, mae'r duedd ar gyfer canran y cleifion sy'n aros yn hirach na deng niwrnod i'w delweddau gael eu hadrodd wedi gostwng ar y cyfan. Gwellodd yr amser adrodd yn sylweddol ar ddechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020, wrth i weithgarwch delweddu ostwng i lefelau isel iawn. Ers hynny, bu cynnydd mewn amseroedd adrodd, gan adlewyrchu'r cynnydd mewn gweithgarwch delweddu wrth i'r Bwrdd lechyd ddechrau adfer darpariaeth gwasanaethau arferol. Nid yw'r cynnydd yn nifer y cleifion sy'n aros yn hirach na deng niwrnod am adroddiad wedi'i wasgaru'n gyfartal ledled pob dull²:</p>

¹ Mae Gwyrdd yn dangos bod yr argymhelliad wedi'i gyflawni; mae Oren yn nodi camau gweithredu parhaus i ymdrin â'r argymhelliad; mae Coch yn dangos nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud neu na wnaed cynnydd; ac mae Glas yn dangos bod yr argymhelliad wedi'i ddisodli.

² Mae ein dadansoddiad wedi'i seilio ar ddata a ddarparwyd gan y Bwrdd lechyd, ar gyfer mis Medi 2018 – mis Awst 2021.

Argymhellion y mae angen ymdrin â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
<p>c. sefydlu a oes angen hyfforddi mwy o radiograffwyr a sut y bydd hynny'n cael ei gyflawni.</p>		<ul style="list-style-type: none"> • ar gyfer sganiau tomograffeg cyfrifiadurol (sganiau CT), ym mis Awst 2019, 27% oedd canran y cleifion a oedd yn aros mwy na deng niwrnod am adroddiad. Gostyngodd canran y cleifion a oedd yn aros mwy na deng niwrnod am adroddiad ar eu delwedd i 0% ym mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, ym mis Awst 2021, arhosodd 7% o gleifion fwy na deng niwrnod am adroddiad ar eu delwedd, ond mae perfformiad yn parhau i fod yn well na chyn y pandemig. • roedd amseroedd adrodd ar sganiau delweddu cyseiniant magnetig (MRI) yn gostwng cyn y pandemig, ond yn fwy diweddar mae canran y cleifion sy'n aros mwy na deng niwrnod am adroddiad wedi codi i lefelau 2018. Ym mis Hydref 2018, arhosodd 69% o gleifion fwy na deng niwrnod am eu hadroddiad MRI (hwn oedd y pwynt canran uchaf). Ym mis Mai 2021, arhosodd 75% o gleifion fwy na deng niwrnod am adroddiad ar eu sgan MRI. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos ychydig o welliant; ym mis Awst 2021 62% yw'r ffigur. • mae perfformiad amser adrodd ar uwchsain yn well na CT ac MRI. Mae canran y cleifion sy'n aros mwy na 10 niwrnod am adroddiad yn isel ac ni fu'n uwch na 4% ers mis Medi 2018. Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn derbyn adroddiad uwchsain o fewn diwrnod o dderbyn y sgan. Mae uwchsain wedi gweld cynnydd bach yng nghanran y cleifion sy'n aros mwy na 10 niwrnod am adroddiad, o ffigur o 1% i 2% yn ystod anterth y pandemig i 4% ym mis Awst 2021. <p>Mae'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u cymryd i fonitro a gwella perfformiad amseroedd aros yn cynnwys:</p>

Argymhellion y mae angen ymdrin â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
		<ul style="list-style-type: none"> • monitro amseroedd adrodd yn wythnosol. Mae rhestr o gleifion a dyddiad eu sgan yn cael ei rhannu â chlinigwyr fel y gallant wneud penderfyniadau ynghylch pa adroddiadau i'w blaenoriaethu. Adroddir ar berfformiad amser adrodd i'r Bwrdd Clinigol bob mis. • mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu llinell sylfaen 'gwaith ar y gweill' o ran nifer y sganiau sy'n aros am adroddiad. Os bydd nifer y sganiau ar y gweill yn mynd y tu hwnt i drothwy y cytunwyd arno, bydd hyn yn ysgogi ymyrraeth (fel cynyddu'r broses o drefnu contractau allanol). • pan fydd yr holl adroddiadau sy'n weddill wedi'u dwyn i sylw clinigwyr, os ydynt o'r farn na fyddant yn gallu cwblhau'r adroddiad mewn da bryd, bydd contract allanol yn cael ei drefnu ar gyfer yr adroddiad. <p>Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o radiograffwyr ymarfer uwch sydd wedi'u hyfforddi i adrodd ar sganiau, ond ar hyn o bryd nid ydynt yn cyflawni'r swyddogaeth hon. Dywedodd staff wrthym fod gan hyn y potensial i fod yn fater cadw staff wrth i radiograffwyr chwilio am gyfleoedd mewn byrddau iechyd cyfagos sydd yn defnyddio radiograffwyr adrodd. Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi faint o ymarferwyr uwch sydd eu hangen arno a sut y gall sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio. Trwy ddefnyddio radiograffwyr ymarfer uwch yn briodol gallant gynnal eu sgiliau a bydd gan y Bwrdd Iechyd fwy o hyblygrwydd i reoli amseroedd adrodd. Trafodir cynllunio'r gweithlu yn fanylach o dan Argymhelliad 6.</p> <p>Mae lefel anhysbys o alw 'cronedig' o ganlyniad i ohirio triniaeth cleifion neu oherwydd iddynt beidio ag ymweld â'u meddyg teulu yn ystod y pandemig. Gallai'r galw cronedig hwn effeithio'n sylweddol ar allu'r gwasanaeth radioleg i ymateb i atgyfeiriadau ac adrodd ar ddelweddau</p>

Argymhellion y mae angen ymdrin â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
		<p>mewn modd amserol, gan arwain at amseroedd aros hirach ar gyfer sganiau ac adrodd ar sganiau.</p> <p>Trafodir cynllunio'r gweithlu yn fanylach o dan Argymhelliad 6.</p>
<p>A2 Yn ystod y flwyddyn nesaf, cynyddu cyfraddau arfarnu staff anghlinigol radioleg i o leiaf lefel holl staff eraill radioleg.</p>	<p>Coch</p>	<p>Nododd ein hadroddiad yn 2017 fod yr holl radiolegwyr, y rhan fwyaf o radiograffwyr ac ychydig llai na hanner staff radioleg eraill wedi eu harfarnu yn ystod y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Rhwng mis Mehefin 2018 a mis Mai 2021, nid oedd cyfradd arfarnu gyffredinol ledled yr holl staff radioleg yn fwy na 58%. Targed arfarnu blynyddol y Bwrdd lechyd yw 85%.</p> <p>Mae'r gyfradd arfarnu gyffredinol yn cuddio amrywiad sylweddol rhwng grwpiau staff radioleg. Er enghraifft, ym mis Mai 2021, roedd cyfraddau arfarnu yn amrywio o 73% ymhlith staff cofrestredig nyrsio a bydwreigiaeth i isafbwynt o 4% ymhlith staff gweinyddol a chlerigol. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin 2018 a mis Mai 2021, nid oedd cyfraddau arfarnu staff gweinyddol a chlerigol yn fwy nag 8%. Mae hyn yn golygu mai ychydig iawn o staff yn y grŵp hwn sydd wedi cael arfarniad rheolaidd yn ystod cyfnod o dair blynedd, os o gwbl.</p> <p>Cwblhaodd y Bwrdd lechyd waith ailstrwythuro staff gweinyddol a chlerigol yn yr adran radioleg yn ystod haf 2021. Nododd yr ailstrwythuro ddiffyg capasiti o ran cymorth gweinyddol a chlerigol. Crëwyd swydd</p>

Argymhellion y mae angen ymdrin â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
		<p>arweinydd tîm newydd. Fodd bynnag, roedd swydd y rheolwr cyffredinol yn wag (ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn) ac yn cael ei chyflenwi gan bedwar unigolyn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl y bydd cyfraddau arfarnu yn gwella pan fydd swydd y rheolwr cyffredinol a'r arweinydd tîm newydd wedi'u llenwi, ac y bydd y cyrhaeddir y gyfradd darged (85%) yn y dyfodol agos.</p> <p>Ar draws grwpiau staff eraill, dywedwyd wrthym ei bod yn anodd dod o hyd i amser i wneud arfarniadau a'r gwaith paratoi cysylltiedig, yn enwedig oherwydd bod yr holl arfarniadau yn cael eu cynnal ar yr un pryd yn y flwyddyn. Mae'r pandemig wedi ychwanegu at y pwysau hynny.</p>
<p>R3 Yn ystod y flwyddyn nesaf, cynyddu cyfraddau hyfforddiant gorfodol ar gyfer yr holl staff radioleg i o leiaf 85%, sef targed y Bwrdd Iechyd.</p>	<p>Oren</p>	<p>Nododd ein hadroddiad yn 2017 fod cyfyngiadau staffio yn rhwystro gallu staff radioleg i fanteisio ar hyfforddiant gorfodol.</p> <p>Mae cofnodion y Bwrdd Iechyd yn dangos, ers hynny, a chyn y pandemig, er bod perfformiad yn amrywio, fod y tîm radioleg yn cyrraedd y targed cydymffurfio o 85% gan amlaf. Mae hyn yn welliant ar berfformiad 2017.</p> <p>Mae'r pandemig wedi cael effaith ar y gallu i ddarparu a manteisio ar hyfforddiant gorfodol, ac mae'r cyfraddau cydymffurfio wedi gostwng ychydig. Ar gyfer misoedd Mawrth, Ebrill a Mai 2021, roedd cyfraddau cydymffurfio cyffredinol yn 84%, 84% ac 83% yn y drefn honno. Mae darparu hyfforddiant y mae'n ofynnol iddo fod wyneb yn wyneb wedi bod yn her arbennig.</p>

Argymhellion y mae angen ymdrin â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
		<p>Y tu ôl i'r ffigur cyffredinol, mae rhywfaint o amrywiant rhwng adrannau radioleg. Ym mis Mai 2021, roedd cydymffurfiad yn amrywio o 89% i 75%. Ni lwyddodd dwy adran i gyrraedd y targed o 85%, gan roi'r ffigur cyffredinol yn is na'r targed hefyd. Gwasanaethau Uwchsain a Radioleg Ysbyty Athrofaol Cymru yw'r ddwy adran dan sylw. Yn ôl y Bwrdd Iechyd, mae hyn yn adlewyrchu heriau'r gweithlu yn y ddau faes hyn.</p> <p>Adroddir ar ddata cydymffurfio â hyfforddiant i'r bwrdd clinigol bob mis.</p> <p>Er gwaethaf y galwadau ar amser staff, yn enwedig yn ystod y pandemig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu gwella a chynnal cydymffurfiad â'r targed hwn i raddau helaeth. Mae perfformiad yn cyrraedd y targed o 85% neu'n agos ato, gyda rhywfaint o amrywio rhwng adrannau.</p>
<p>A4 Cysylltu â chlinigwyr sy'n atgyfeirio wrth ddatblygu ac adolygu canllawiau. Sicrhau bod pob clinigwr sy'n atgyfeirio yn gwybod ble i gael fersiynau cyfredol o ganllawiau</p>	<p>Oren</p>	<p>Er bod canllawiau atgyfeirio clir ar waith, canfu ein hadroddiad yn 2017 nad oedd clinigwyr atgyfeirio yn ymwybodol ohonynt. Daethom i'r casgliad hefyd fod absenoldeb system e-gyfeirio yn peri risg.</p> <p>Ym mis Gorffennaf 2021, sefydlodd y Bwrdd Iechyd grŵp llywio clinigol sy'n gweithio gyda gofal sylfaenol i adolygu llwybrau clinigol mewn partneriaeth. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, roedd effaith gwaith y grŵp llywio yn cael ei gwerthuso a disgwylir y bydd Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Bwrdd Clinigol yn cael adroddiad cyn gynted ag y bydd y pwysau presennol yn caniatáu hynny. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd</p>

Argymhellion y mae angen ymdrin â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
		<p>enghreiffiau i ni o lwybrau atgyfeirio y mae'r grŵp wedi'u datblygu. Caiff llwybrau atgyfeirio eu harchwilio'n rheolaidd a'u hadrodd i'r is-bwyllgor.</p> <p>Dywedodd radiograffwyr wrthym fod llinellau cyfathrebu agored rhwng clinigwyr mewn ysbytai a safleoedd radioleg, felly mae'n hawdd cael sgysiau ynghylch sut a phryd i wneud atgyfeiriadau. Er nad oes yr un lefel o gysylltu â meddygon teulu unigol, awgrymodd y Bwrdd lechyd wrthym nad oeddent yn derbyn llawer o atgyfeiriadau amhriodol.</p> <p>Mae prosesau ar waith i gyfleu newidiadau mewn protocol i feddygon teulu a bydd yr ysbyty yn ailgyhoeddi canllawiau atgyfeirio i feddygon teulu penodol lle bo angen. Pan ddaw atgyfeiriad amhriodol, mae'r atgyfeiriwr yn derbyn gwybodaeth yn esbonio pam yr oedd yr atgyfeiriad yn amhriodol. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd lechyd system e-gyfeirio ar waith. Mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu system e-gyfeirio fel y gall meddygon teulu ei defnyddio i ofyn am ddelweddu. Mae'r Bwrdd lechyd yn rhagweld, pan fydd y system ar waith, y bydd yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol (fel brand a model rheolydd calon) yn cael ei chynnwys yn yr atgyfeiriad gwreiddiol. Mae gan hyn y potensial i wneud y broses atgyfeirio yn fwy effeithlon o safbwynt gweinyddol ac i leihau amseroedd aros i gleifion. Nododd y Bwrdd lechyd ei fod yn disgwyl i'r gwaith o ddatblygu system e-gyfeirio ddechrau ym mis Ionawr 2022, ac y bydd yr union ddyddiad gweithredu i'w gadarnhau.</p>

Argymhellion y mae angen ymdrin â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
<p>A5 Yn ystod y 12 mis nesaf, datblygu strategaeth radioleg sy'n nodi:</p> <ol style="list-style-type: none"> ble mae'r gwasanaeth arni bellach o ran galw, capasiti ac adnoddau; ble mae angen i'r gwasanaeth fod; a sut y bydd y gwasanaeth yn cyflawni ei nodau. 	<p>Gwyrdd</p>	<p>Yn ein hadroddiad yn 2017, gwnaethom weld bod diffyg strategaeth glir ar gyfer y gwasanaeth radioleg yn cyfyngu ar ei allu i lunio cynlluniau gweithredol cadarn.</p> <p>Nid oes gan y gyfarwyddiaeth radioleg strategaeth; fodd bynnag, bob blwyddyn mae'n datblygu cynllun gweithredol. Mae'r cynllun yn nodi rhagolwg galw, capasiti ac adnoddau'r gweithlu, gan gynnwys gwybodaeth am gyfeiriad y daith. Lle ceir heriau hysbys a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar y gwasanaeth, mae'r cynllun gweithredol yn nodi'r rhain yn fanylach. Mae cofrestr risgiau wedi'i hymgorffori yn y cynllun gweithredol sy'n nodi'r prif risgiau y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu a'r camau lliniaru sydd ar waith i wrthbwysu'u heffaith.</p> <p>O ran nodau tymor canolig a hirdymor y gwasanaeth, mae'r cynllun hefyd yn rhestru strategaethau sy'n benodol i'r gwasanaeth sydd ar waith i ddatblygu gwasanaethau fel y Llwybr Canser Sengl, datblygu gwasanaeth radioleg Pediatrig yn rhanbarthol a chanoli gwasanaethau fasnolaidd yn rhanbarthol.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yng nghymau cynnar trafod eu cynlluniau byrdymor, tymor canolig a hirdymor i adfer gofal wedi'i gynllunio ers y pandemig gyda Llywodraeth Cymru. Yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau hynny, gallai'r Bwrdd Iechyd weld newidiadau sylfaenol i'w lwybrau diagnostig ac effeithiau dilynol ar ddarparu gwasanaethau radioleg.</p>

Argymhellion y mae angen ymdrin â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
		<p>Dywedodd radiograffwyr wrthym hefyd eu bod wrthi'n ymgysylltu'n rhagweithiol ag adrannau eraill i bennu pa gymorth y bydd ei angen arnynt oddi wrth radiograffeg i ddatblygu eu cynlluniau nhw (yr adrannau eraill).</p>
<p>A6 Datblygu cynllun gweithlu ochr yn ochr â'r strategaeth radioleg sy'n nodi'r llinell sylfaen sydd ei hangen i ateb y galw am radioleg yn gynaliadwy mewn modd diogel ac amserol.</p>	<p>Gwyrdd</p>	<p>Yn 2017 nid oedd gan y Bwrdd lechyd unrhyw gynllun gweithlu ar gyfer radioleg. Mae cynllunio'r gweithlu wrthi'n digwydd erbyn hyn yn rhan o'r broses cynllun gweithredol flynyddol. Yn y cynllun gweithredol, mae adran ar y gweithlu, sy'n nodi'r sefyllfa bresennol o ran y sefydliad, risgiau a gofynion. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys dolenni i gynlluniau gweithlu penodol ar gyfer porthorion, cynorthwyr adrannau radioleg a radiograffwyr, gan nodi blaenoriaethau'r 12 mis nesaf a blaenoriaethau hirdymor yn fanylach, oherwydd yr heriau sy'n wynebu'r carfannau penodol hynny.</p> <p>Er bod model y gweithlu presennol a'r heriau recriwtio a chadw wedi'u mynegi'n glir, nid yw cynllun hirdymor ar gyfer ymdrin â phob her wedi'i gynnwys yn y cynlluniau. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau yn cynnwys gwybodaeth am ailstrwythuro sydd eisoes wedi digwydd lle bo hynny'n berthnasol.</p> <p>Mae rhai o'r problemau prinder yn y gweithlu ar gyfer radiolegwyr a radiograffwyr i'w gweld ledled y DU, felly mae'r Bwrdd lechyd yn cystadlu mewn marchnad gystadleuol iawn ar gyfer adnoddau gweithlu prin. Mae'r</p>

Argymhellion y mae angen ymdrin â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
		<p>cynllun yn nodi'r angen i sefydlu ateb strategol i Gymru gyfan fel mater o frys.</p> <p>Yn gyffredinol, mae gan y Bwrdd Iechyd well dealltwriaeth o'r heriau y mae'r gweithlu'n eu hwynebu nag a oedd ganddo yn 2017.</p> <p>Dywedodd radiograffwyr wrthym, yn gyffredinol, nad yw'r Bwrdd Iechyd yn ei chael yn anodd recriwtio radiograffwyr. Nid yw trosiant yn bryder arbennig, ond pan fo pobl yn symud ymlaen, mae hyn fel arfer yn ymwneud â dwysedd y gwaith, fel yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Ysbyty Athrofaol Cymru yw'r ganolfan ranbarthol ar gyfer sawl disgyblaeth, sy'n darparu llawer o brofiad a chyfleoedd i staff. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod angen darparu gwasanaeth 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Felly, gall hyn olygu bod cyfleoedd sy'n cael eu darparu gan fyrrddau iechyd eraill, nad os angen darpariaeth 24 awr arnynt i'r fath raddau fod yn ddeniadol i rai staff.</p> <p>Er bod y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu denu graddedigion radiograffeg yn gymharol rwydd yn ddiweddar yn gadarnhaol, mae'n bosibl y bydd dominyddiaeth un grŵp oedran penodol yn y gweithlu yn achosi problemau yn y dyfodol.</p> <p>Fel y trafodwyd yn Argymhelliad 1, gallai methu â defnyddio sgiliau adrodd radiograffwyr yn briodol arwain at anawsterau wrth gadw'r garfan hon o staff, yn enwedig pan allai byrrddau iechyd cyfagos gynnig mwy o gyfleoedd yn y maes hwn.</p>

Argymhellion y mae angen ymdrin â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
		<p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd rhan yn y Cynllun Symleiddio³ wedi'i hwyluso gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Effaith hyn yw bod un broses recriwtio flynyddol bellach. Er bod arbedion diamau yn gysylltiedig â'r dull hwn, mae risgiau hefyd nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu bod mor hyblyg ac ymatebol ag y mae angen iddo fod i newidiadau yn y gweithlu drwy gydol y flwyddyn.</p>
<p>A7 Erbyn canol 2017, datblygu cynllun offer newydd. Dylai'r cynllun:</p> <ol style="list-style-type: none"> gynnwys blaenoriaethau, gofynion a chostau cysylltiedig offer, ac amlinellu'r risgiau i'r gwasanaeth/cleifion o beidio â chyflawni'r cynllun o fewn yr amserlenni gofynnol. 	<p>Gwyrdd</p>	<p>Yn 2017, nid oedd gan y Bwrdd Iechyd raglen offer newydd ar waith. Fel yn 2017, mae gan y gwasanaeth radioleg gofrestr asedau, dyma restr o offer sy'n rhestru dyddiadau gweithgynhyrchu a gosod. Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu'r gofrestr asedau ac asesiadau risg i nodi'r offer risg uchaf y mae angen rhai newydd yn eu lle drwy'r rhaglen offer delweddu newydd genedlaethol.</p> <p>Mae'r Grŵp Rheoli Cyfalaf, sy'n cymeradwyo ac yn monitro rhaglen gyfalaf y Bwrdd Iechyd, hefyd yn goruchwyllo'r gyllideb ddewisol ar gyfer offer newydd. Roedd hyn hefyd yn wir yn 2017.</p> <p>Cefnogir proses gaffael offer radioleg mawr gan y gwasanaeth ystadau arbenigol ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae Byrddau</p>

³ Mae'r Cynllun Symleiddio i Fyfirwyr yn caniatáu i fyfirwyr nyrsio a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, a graddedigion gwyddorau iechyd gyflwyno un cais i GIG Cymru, gan nodi arbenigedd a/neu leoliad a ffefrir. Mae hyn yn dileu'r angen i gyflwyno ceisiadau niferus.

Argymhellion y mae angen ymdrin â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
		<p>lechyd yn nodi eu blaenoriaethau ar gyfer gwella, a all ganiatáu cyflawni arbedion maint.</p> <p>Ers mis Mawrth 2021, mae'r Bwrdd lechyd wedi bod â gweithdrefn a pholisi rheoli offer meddygol sy'n nodi'r fframwaith ar gyfer gosod offer newydd. Caiff diffygion, amser segur ac ansawdd delweddau eu monitro ac maent yn ffactorau yn y broses flaenoriaethu.</p> <p>Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd lechyd wedi buddsoddi mewn cyfarpar MRI newydd. Dywedodd y staff wrthym fod hyn wedi gwneud gwelliannau sylweddol i brofiad y staff a'r cleifion.</p>
<p>A8 Cryfhau trefniadau rheoli perfformiad y gyfarwyddiaeth drwy:</p> <ol style="list-style-type: none"> nodi amcanion busnes a gwasanaeth clir; ac ehangu'r amrywiaeth o fesurau perfformiad sy'n cyd-fynd â'r amcanion busnes a gwasanaeth i gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> - amser segur offer, - lefelau swyddi gwag, - nifer y delweddau heb eu hadrodd, 	<p>Oren</p>	<p>Mae gan y Bwrdd lechyd amrywiaeth o wybodaeth am berfformiad y mae'n ei adrodd i'r Bwrdd Clinigol bob mis. Mae pob un o'r mesurau a nodwyd yn ein hargymhelliad yn 2017 wedi eu cynnwys, ac eithrio amser segur offer, a drafodir gyda'r cwmni sy'n darparu'r contractau cynnal a chadw bob chwarter. Byddai'n fuddiol i'r Bwrdd Clinigol gael yr wybodaeth hon hefyd, er mwyn helpu i ddeall perfformiad amseroedd aros.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio gydag amrywiaeth o wahanol systemau meddalwedd nad ydynt bob amser yn cyd-fynd â'i gilydd. Felly, gall fod yn anodd a chymryd llawer o amser i echdynnu gwybodaeth a'i chyflwyno mewn ffordd sy'n hawdd ei deall.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd lechyd mewn trafodaethau â pharti allanol i ddarparu ateb meddalwedd a fyddai'n caniatáu i'r Bwrdd lechyd wella'r broses o echdynnu a chyflwyno gwybodaeth reoli. Y bwriad yw darparu</p>

Argymhellion y mae angen ymdrin â nhw	Statws ¹	Crynodeb o'r cynnydd
<ul style="list-style-type: none"> - perfformiad yn erbyn atgyfeirio mewnol; ac - amseroedd adrodd. 		<p>data ar ffurf weledol well, fel y manau cul yn y llwybr a'r galw gwirioneddol o'i gymharu â'r galw a ragwelir. Ar hyn o bryd, daw'r data o nifer o systemau, a all gymryd cryn amser i'w casglu.</p> <p>Mae gan y Bwrdd lechyd gyfres o amcanion y cyfeirio atynt yn y cynllun gweithredol. Mae'r cynllun yn nodi bod gwaith y gwasanaeth yn berthnasol i amcan lefel uchel y Bwrdd lechyd o fod â system gofal wedi'i gynllunio lle mae cydbwysedd rhwng y galw a'r capasiti. Ni wnaethom weld tystiolaeth bod y gwasanaeth radioleg wedi nodi'i amcanion radioleg penodol ei hun. Byddem yn disgwyl i'r gwasanaeth radioleg nodi camau gweithredu penodol, mesuradwy wedi'u rhwymo gan amser i'w cyflawni yn ei gynllun gweithredol. Byddai hyn yn caniatáu am adolygu cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu a nodwyd yn y cynllun gweithredol a nodi ble'r oedd y ddarpariaeth wedi symud oddi ar y trywydd iawn i allu gwneud penderfyniadau ar gamau lliniaru.</p>



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.